# COFNODION CYNGOR CYMUNED RHOSYBOL
## Cyfarfod Rhithwith Nos Lun 7 Rhagfyr 2020 am 7yh.

1. Cyfarfod Rhithwith drwy Galwad Fideo.

2. Presennol
   *Rhian Hayes, Debra Griffiths, Huw Edwards, Gwilym Morris, Aled Morris Jones, Wendy Morris Griffiths*

3. Ymddiheuriadau
   *Richard Jones, Richard Griffiths, Carol Jones, Ceri Jones, Gwynfor Owen*

4. Datgan Diddordeb - *Dim*

5. Darllen a cymeradwyo cofnodion cyfarfod 2 Tachwedd 2020
   *GM cynnig, RH yn eilio*

6. **Materion yn codi**

   i. Cae Chwarae Rhosybol – Diweddariad ar y ffens
      GM a ME wedi cyfarfod gyda NW Fencing (ar rhan DU Construction)
      Trafod anghenion gosod ffens, gyda pwyslais fod rhaid i'r ffens a giat gydymffurfio gyda gofynion RoSPa. NW Fencing am rhoi unrhyw adborth i DU Construction a Cyngor Cymuned Rhosybol ynghlyn a'r dewisiadau.
      *ME I holi DU construction am £500 sydd wedi ei addo yn flaenorol.*

   ii. Cae Chwarae Rhosybol – Atgyweiriadau
      Pris wedi ei dderbyn gan MacVenture Play i wneud atgyweiriadau sydd wedi ei codi gan adroddiad RoSPa
      £672.00 (£560 + TAW £112)
      Nid yw atgyweirio'r postiau peldroed o fewn y pris, oherwydd maent wedi rhydu gormod i baentio, ond mae MacVenture yn dweud ei bod yn saff yn bresennol ond angen ei monitro.
      *Pawb yn gytun i gario ymlaen gyda'r atgyweiriadau.*

   iii. Dosbarthwyr Baw Ci – Rhosybol
      2 dosbarthwr yn cael ei gosod 7fed Rhagfyr yn y pentref. 800 o fagiau baw ci wedi ei cyflenwi gan CSYM.
      *HE yn diolch am gael trefnu , AMJ am holi am arwyddion I gadw cwn o dan rheolaeth.*

   iv. Carafan wedi ei adael yn fynedfa fferm Shell Tank, Rhosgoch
      AMJ wedi trefnu gyda adran Amgylcheddol CSYM i gael gwared o'r garafan.

**7. Gwybodaeth**

a) Menter Môn – Pwyso i Siarad
Arloesi Gwynedd Wledig ac Arloesi Môn yn treialu technoleg Newydd i fynd ar afael ag unigrwydd, edrych am 20 o bobl Môn i gymeryd rhan yn y prosiect.

b) Munudau Partneriaeth Gogledd Môn 25 Tachwedd 2020
*GM a AMJ wedi mynychu, trafodaeth wedi bod am cyfansoddiad y grwp.*

c) Comisiynydd Heddlu a Throsedd – arolwg ar-lein (Erbyn 15.01.2021)
Cyfle i rhoi barn ar y gwasanaeth yn enwedig ar le fel praesept 2021/22

d) Awel y Môr – Arddangosfa Fferm Wynt Alltraeth
Cyfnod ymghynghori hyd at 13 Rhagfyr. Cyfle i rhoi adborth ar holl agweddau'r prosiect dan sylw.
Mae'r diweddariad hwn yn ymddangos ar ddau fwrdd gwybodaeth gwahanol yn ystafell rithiol yr ymgynghoriad dan y teitl '*Llwybr y Cebl ar y Tir'* a '*Yr Is-Orsaf ar y Tir'*
https://awelymor.cymru/

e) BIPBC – Cyfarfod Grwp Cyfeiriol Budd-Ddeiliaid
Munudau Cyfarfod 28 Medi 2020

f) Coeden Nadolig Rhosybol
Wedi ei osod a'r ysgol wedi trefnu goleuo'r goeden.

g) Drych yn cyffordd lon gefn Rhosybol
Ail drych wedi ei osod gan Adran Priffydd CSYM yn y cyffordd fel bod modd gweld y ddwy ochr yn y cyffordd.
*RH yn diolch I AMJ am drefnu arwydd ARAF SLOW*

h) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
https://cffdl.llyw.cymru/adolygiadau/11-20/argymhellion-terfynol-ar-gyfer-ynys-mon
Linc uchod yn dangos yr argymellion ar gyfer Ynys Môn.
Copi caled wedi ei dderbyn gan ME os oes rhywun angen ei weld.

**8. MATERION CYNLLUNIO**

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

Dim

*AMJ - Er gwybodaeth, Pwyllgor Cynllunio yn trafod cais Christchurch ar 13/01/21*

**PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO**

- Dim

9. **ADRODDIAD ARIANNOL A BILIAU**

a) Rhys Williams, Torri gwair cae Chwarae Rhosybol a llwybr Betsi £240.00
b) Anglesey Mowers – Coeden Nadolig Rhosybol
c) Cyflogaeth Clerc £2460.80 (Ebrill 2020 – Tachwedd 2020 8x307.60)

*AMJ yn cynnig, GM yn eilio i dalu rhain.*

10. **Unrhyw Fater Arall**

DIM

*HE yn diolch i bawb am fynychu.*

Cyfarfod Nesaf – 1af Chwefror 2021 7yh dros Zoom.